Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Y Datganiad Polisi Morol

Ionawr 2011

## 1. Rhagarweiniad

Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad *Safeguarding Our Seas*[1], a gyhoeddwyd yn 2002, mae gan y DU weledigaeth ar gyfer yr amgylchedd morol sydd yn ceisio **sicrhau cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol.** Mae ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009***[2] ("y Ddeddf") yn creu fframwaith newydd ar gyfer y moroedd, a hynny'n seiliedig ar gynllunio gofodol morol, sydd â'r nod o daro cydbwysedd o ran anghenion cadwraeth, ynni ac adnoddau. Ffrwyth llafur sawl blwyddyn o ymgynghori oedd y Ddeddf, gan cynnwys dau Bapur Gwyn yn 2006 a 2007, a Mesur Seneddol drafft yn 2008. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 12 Tachwedd 2009.

**Mae'r Ddeddf yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, ar y cyd â'r gwledydd datganoledig, i greu Datganiad Polisi Morol ar gyfer ardal forol y DU** sy'n nodi'r amcanion polisi lefel uchel, a'r rheini'n seiliedig ar yr amcanion morol lefel uchel a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2009, ar gyfer datblgyu moroedd y DU mewn ffordd gynaliadwy.

Mae Llywodraethau'r DU yn gweithio at gyd-fabwysiadu'r Datganiad, a fydd yn gymwys i holl foroedd y DU. Cynhaliodd Llywodraethau'r DU rag-ymgynghoriad ar y cyd ar y Datganiad rhwng mis Mawrth a mis Mai 2010, ar ffurf papur trafod[3], ac, ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddwyd yr *UK Marine Policy Statement: A draft for consultation*[4] a dogfennau ategol[5]. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13 Hydref 2010 a chyhoeddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar 30 Tachwedd 2010[6].

## 2. Beth yw'r Datganiad Polisi Morol?

Y Datganiad Polisi Morol fydd rhan gyntaf y system newydd o gynllunio morol sy'n cael ei chyflwyno ar gyfer y DU. **Mae'r Ddeddf yn darparu y bydd y Datganiad Polisi Morol yn gosod y fframwaith polisi ar gyfer y moroedd ar lefel y DU, a chaiff Cynlluniau Morol**[7]

---

[1] Defra, ***Safeguarding Our Seas***, 2002
[2] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009***, (pennod 23)
[3] Defra, ***Pre-Consultation on the Draft UK Marine Policy Statement: A paper for discussion***, Mawrth 2010
[4] Defra, ***UK Marine Policy Statement: A draft for consultation***, Gorffennaf 2010
[5] Defra, Ymgynghoriadau, ***Marine Policy Statement***, gwefan [fel ar 9 Rhagfyr 2010]
[6] Defra, ***An initial summary of responses to The UK Marine Policy Statement: A draft for consultation***,Tachwedd 2010
[7] Rhoddir y cyfrifoldeb am greu'r Cynlluniau Morol i'r awdurdodau cynllunio morol a grëwyd gan y Ddeddf; Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod hwnnw ar gyfer dyfroedd mewndirol a'r dyfroedd oddi ar yr arfordir yng Nghymru.

**eu paratoi er mwyn amlinellu sut y caiff y Datganiad Polisi Morol ei roi ar waith mewn ardaloedd penodol**. Bydd y Datganiad hefyd yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer trwyddedu morol a systemau awdurdodi perthnasol eraill.

Bwriad y Datganiad Polisi Morol yw:

- Hyrwyddo datblygu economaidd cynaliadwy;
- Galluogi'r DU i symud at economi carbon isel, er mwyn lliniaru'r pethau sydd wrth wraidd y newid yn yr hinsawdd ac asideiddio'r moroedd, ac addasu i effeithiau'r rheini;
- Sicrhau amgylchedd morol cynaliadwy sy'n hyrwyddo ecosystemau morol iach a gweithredol ac sy'n diogelu cynefinoedd a rhywogaethau morol a'r asedau treftadaeth pwysicaf;
- Cyfrannu at fanteision yr ardal forol i gymdeithas, gan gynnwys defnyddio adnoddau morol yn gynaliadwy i fynd i'r afael â materion cymdeithasol ac economaidd lleol.

Gwneir hynny drwy:

- Integreiddio'r amcanion gwahanol;
- Cydnabod bod y galw am y defnydd o'r moroedd, a'r pwysau cysylltiedig arnynt, yn parhau ar gynnydd;
- Rheoli'r mathau gwahanol o alw ar yr ardal forol, gan fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ecosystemau[8];
- Galluogi gweithgareddau priodol i fodoli ar y cyd os yw'n bosibl;
- Integreiddio â chynllunio daearol. [9]

## 3. Sut y bydd y Cynlluniau Morol yn berthnasol i'r Datganiad Polisi Morol?

**Bydd y Cynlluniau Morol yn cynnig a chyflwyno canlyniadau ar gyfer ardal y Cynllun Morol a fyddant yn gyson â'r Datganiad ac a gânt eu cefnogi a'u seilio ar dystiolaeth sy'n benodol i ardal y Cynllun Morol**. I'r graddau y mae'n bosibl, bydd y Cynlluniau Morol yn ceisio adlewyrchu a mynd i'r afael â'r ystod o weithgareddau sy'n digwydd yn yr ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun ac sy'n gosod galw ar yr ardaloedd hynny, yn ogystal â nodi sut y gellir rheoli gweithgareddau sydd o bosibl yn gwrthdaro. Byddant hefyd yn nodi'r ardaloedd hynny sy'n addas ar gyfer rhai mathau o weithgareddau drwy amlinellu sensitifrwydd amgylcheddol ardaloedd gwahanol a cheisio taro cydbwysedd rhwng buddiannau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yn unol ag amcanion y Datganiad Polisi Morol.

Yn ogystal â chydymffurfio ag amcanion y Datganiad, bydd y Cynlluniau Morol hefyd yn

[8] Mae dull sy'n seiliedig ar ecosystemau o ran rheoli gweithgarwch dynol yn golygu dull sy'n sicrhau bod holl bwysau gweithgarwch dynol yn cael eu cadw o fewn lefelau sy'n gydnaws â sicrhau statws amgylcheddol dda, nad yw'n cyfaddawdu ar gapasiti ecosystemau morol i ymateb i newidiadau sy'n deillio o weithgarwch dynol, ac sy'n galluogi defnydd cynaliadwy o nwyddau a gwasanaethau morol.
[9] Defra, ***UK Marine Policy Statement: A draft for consultation***, Gorffennaf 2010

ystyried yr ystod eang o ddarpariaethau deddfwriaethol ar y lefel ryngwladol a chenedlaethol, gan gynnwys *Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, a'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt*.

Mae'r Cynlluniau Morol i fod yn ddogfennau byw sy'n ystyried datblygiadau newydd er mwyn gallu monitro effaith gronnol datblygiadau a gweithgareddau.[10]

## 4. Sut y bydd yr Ardaloedd Gwarchodedig Morol yn berthnasol i'r Datganiad Polisi Morol?

Yn unol â Chonfensiwn OSPAR[11] mae Llywodraethau'r DU wedi ymrwymo i atal colli bioamrywiaeth morol a'i adfer gymaint â phosibl er mwyn diogelu gwerth economaidd, cymdeithasol a chynhenid yr amgylchedd morol. Caiff hyn ei gyflawni drwy gynnwys amcanion cadwraeth mewn cynllunio a phenderfyniadau morol. **Mae Llywodraethau'r DU wedi ymrwymo i ddarparu rhwydwaith ecolegol cydlynol o Ardaloedd Gwarchodedig Morol erbyn 2012**. Bydd y rhwydwaith yn cynnwys yr Ardaloedd Gwarchodedig Morol presennol yn ogystal â safleoedd newydd, **a bydd yn cynnwys dynodi Parthau Cadwraeth Morol**.[12]

Yn ôl y Ddeddf, dylai cynllunwyr a phenderfynwyr morol ystyried sut y bydd datblygiadau'n effeithio ar y nod o atal colli bioamrywiaeth yn ogystal ag ystyried rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r Ardaloedd Gwarchodedig Morol, eu hamcanion cadwraeth, a'u trefniadau rheoli.

Wrth ddynodi Parthau Cadwraeth Morol, mae'n ofynnol o dan y Ddeddf i'r awdurdodau priodol roi sylw i'r Datganiad Polisi Morol. **Yng Nghymru, Llywodraeth Cymru sydd yng ngofal y broses o ddynodi'r safleoedd hyn, a hynny drwy gyfrwng *Prosiect Parthau Cadwraeth Morol Cymru***.

## 5. Beth yw cwmpas y Datganiad Polisi Morol?

**Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl awdurdodau cyhoeddus sydd ag awdurdod dros ardal forol y DU neu sy'n cymryd penderfyniadau sy'n effeithio neu a allai effeithio ar ardal o'r fath wneud hynny'n unol â'r Datganiad Polisi Morol a'r Cynlluniau Morol perthnasol oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall**. Mae hyn yn cynnwys amodau sy'n rhan o awdurdodiadau, a'r camau gorfodi a gânt eu cymryd i sicrhau cydymffurfio.

Pan na fydd penderfyniad wedi'i wneud yn unol â'r Datganiad Polisi Morol a'r Cynlluniau Morol perthnasol, rhaid i'r awdurdod cyhoeddus ddatgan ei resymau. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau eraill sy'n effeithio ar ardal forol y DU, neu a allai

[10] Defra, *UK Marine Policy Statement: A draft for consultation*, Gorffennaf 2010
[11] Confensiwn OSPAR yw'r offeryn cyfreithiol cyfredol sy'n llywio'r cydweithredu rhyngwladol o ran gwarchod amgylchedd morol gogledd-ddwyrain Môr Iwerydd.
[12] Yng Nghymru ceir sawl math o Ardaloedd Gwarchodedig Morol sy'n cynnig lefelau gwahanol o warchodaeth: safleoedd morol Ewropeaidd (Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig); Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig â nodweddion rhynglanwol ac islanwol; safleoedd Ramsar gydag elfennau morol; Gwarchodfeydd Natur Morol; a Pharthau Cadwraeth Morol.

effeithio ar ardal o'r fath, hefyd roi sylw i'r Datganiad a'r Cynlluniau Morol perthnasol.

**Bydd y Datganiad Polisi Morol hefyd yn bodoli a gweithredu ochr yn ochr â'r cyfundrefnau cynllunio presennol**, gan gynnwys y drefn cynllunio gwlad a thref a'r gyfundrefn gorchymyn cydsynio datblygu ar gyfer prosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd, a hynny er mwyn sicrhau integreiddio cynllunio morol a daearol.

**Bydd y Datganiad Polisi Morol yn parhau mewn grym nes iddo gael ei dynnu'n ôl, ei ddiwygio neu ei newid. Caiff ei adolygu pan fydd yr awdurdodau polisi perthnasol yn ystyried bod hynny'n briodol.**

## 6. Beth yw'r Datganiad o Gyfranogaeth Gyhoeddus?

**Wrth baratoi'r Datganiad Polisi Morol a'r Cynlluniau Morol, mae'n ofynnol i'r awdurdodau cynllunio morol gyhoeddi Datganiad o Gyfranogaeth Gyhoeddus sy'n amlinellu'n fanwl pryd a sut y caiff y rhai sydd â wnelont â'r cynllun gyflwyno sylwadau amdano.** Cyhoeddwyd y *Statement for Public Participation for the UK Marine Policy Statement*[13] gyntaf ym mis Rhagfyr 2009.

Yn achos y Datganiad Polisi Morol, mae'r Ddeddf yn datgan na ellir mabwysiadu Datganiad nes iddo gael ei gyflwyno gerbron y ddeddfwrfa berthnasol er mwyn ymgynghori. **Yng Nghymru, roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod drafft o'r Datganiad Polisi Morol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac, os yw'r Cynulliad yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch y drafft, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ymateb i'r argymhellion hynny.**

Ar 21 Medi 2010, gosodwyd y Datganiad Polisi Morol drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y cyfnod a bennwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer craffu ar y drafft ymgynghorol yw 12 wythnos eistedd o'r dyddiad y gosodwyd y ddogfen.

Caiff y Datganiad drafft ei ddiwygio yn wyneb sylwadau sy'n deillio o'r broses graffu ac ymgynghori, a bydd wedyn yn cael ei ddosbarthu ymysg Llywodraethau'r DU er mwyn cael cytundeb arno. Bwriedir i'r **Datganiad Polisi Morol terfynol gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2011**.

[13] Defra, ***Statement for Public Participation for the UK Marine Policy Statement***, Rhagfyr 2009

## 7. Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth am agweddau ar y Datganiad Polisi Morol, cysylltwch â **Victoria Paris** (**victoria.paris@cymru.gov.uk**), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

Am ragor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch ar y lincs perthnasol.

- Gwybodaeth am **gynllunio morol** ar wefan Llywodraeth Cymru
- Gwybodaeth ar wefan Llywodraeth y DU am **y system cynllunio morol**
- Sesiwn tystiolaeth lafar Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y **Datganiad Polisi Morol**
- Gwybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru am **Brosiect Parthau Cadwraeth Morol Cymru**

Gellir gweld rhestr lawn ein hysbysiadau hwylus **yma**.

MRS 10/2424 Victoria Paris

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gov.uk**